# Cynllun Grant Adfywio Adeiladau Rhestredig 2026/27

# Canllawiau i Ymgeiswyr

## 1. Pwrpas

Mae'r Cynllun Grant Adfywio Adeiladau Rhestredig (LBRGS) yn cefnogi atgyweirio, cadwraeth ac ailddefnydd cynaliadwy o adeiladau rhestredig yng Nghymru. Nod y cynllun yw diogelu asedau treftadaeth gan gyfrannu at adfywio lleol a budd cymunedol yr un pryd.

## 2. Amcanion

Dylai ymgeiswyr ddangos yn fanwl sut mae eu prosiect yn bodloni cymaint o'r amcanion isod â phosibl. Os ydynt yn dibynnu ar un neu ddau brif amcan, dylai ceisiadau ddangos y budd cymdeithasol, economaidd a chyhoeddus ehangach. Gall ymgeiswyr ddangos sut mae eu prosiect yn cyd-fynd â phrosiectau tebyg eraill yn yr ardal i gynyddu budd ac effaith ehangach y prosiectau pan fyddant wedi'u cyfuno.

- Cadw ac atgyweirio adeiladau hanesyddol o arwyddocâd cenedlaethol, gan gynnwys ail-adfer nodweddion coll lle mae digon o dystiolaeth ar gael.
- Annog adfer a/neu ailddefnyddio Adeiladau sy'n cael eu hystyried 'Mewn Perygl'
- Hyrwyddo adfywio a datblygu economaidd sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth.
- Gwella cynaliadwyedd a gwydnwch o ran yr hinsawdd mewn prosiectau treftadaeth.
- Gwella mynediad cyhoeddus neu ddehongliad a dealltwriaeth o amgylchedd hanesyddol Cymru.
- Lle bo'n berthnasol, dylai prosiectau nodi sut maent yn cyfrannu at nodau uchelgeisiau Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant [Blaenoriaethau ar gyfer diwylliant | LLYW.CYMRU]
- Gwella gallu ar gyfer cyfleoedd hyfforddi ym mhob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol, adeiladu a sgiliau proffesiynol:

*Gallai enghreifftiau gynnwys darparu profiad ar y safle ar gyfer sgiliau treftadaeth a phroffesiynol, creu neu ddarparu prentisiaethau a phartneriaethau â sefydliadau addysg.*

## 3. Meini prawf cymhwystra

**Eiddo Cymwys**

• Adeiladau rhestredig Gradd I, II* neu II yng Nghymru, a rhaid eu bod wedi'u cynnwys ar gronfa ddata Cyflwr Adeiladau Rhestredig Cymru Gyfan fel adeilad mewn perygl neu adeilad mewn cyflwr sy'n ei wneud yn agored i niwed. Os nad yw'r adeilad yn cael ei ystyried fel un mewn perygl neu agored i niwed, dylid darparu tystiolaeth bod yr adeilad wedi dirywio i gyflwr o'r fath ers ei asesiad diwethaf. Bydd Swyddog Cadwraeth yr Awdurdod Lleol perthnasol yn gallu cadarnhau statws risg yr adeilad

**Gweithiau Cymwys**

• Atgyweiriadau strwythurol brys

• Cadwraeth ffabrig hanesyddol

• Gwaith atgyweirio i'r ffabrig hanesyddol sy'n helpu i ddod ag adeiladau yn ôl i ddefnydd

• Gwelliannau hygyrchedd (lle bo hynny'n briodol) sy'n dod ag adeiladau yn ôl i ddefnydd neu'n cynyddu meddiannaeth yr adeilad yn uniongyrchol.

• Ffioedd proffesiynol (e.e., penseiri, arbenigwyr cadwraeth)

**Sylwer: Rhoddir blaenoriaeth i eiddo sydd ym mherchnogaeth a/neu reolaeth sefydliadau nid-er-elw neu eiddo sy'n darparu buddion cymunedol ehangach.**

**Bydd eiddo preswyl preifat yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid dim ond os gallant ddangos arwyddocâd hanesyddol o lefel uchel, budd cymunedol ehangach neu lle bydd prosiectau yn cael effaith sylweddol yn y sector sgiliau treftadaeth.**

**Gweithiau na fydd yn cael eu hystyried ac felly'n cael eu hystyried fel rhai nad ydynt yn gymwys i gael grant:**

- Adeilad neu estyniad newydd, oni bai ei fod yn hanfodol i hwyluso defnydd hyfyw o fewn yr adeilad rhestredig.
- Dymchwel.
- Newidiadau, oni bai eu bod yn angenrheidiol er mwyn diogelu ffabrig hanesyddol neu a fyddai'n gwella ffabrig hanesyddol neu arwyddocâd yr adeilad. e.e. adfer nodweddion gwreiddiol neu rai coll neu newidiadau a wnaed er mwyn datgelu cyfnod pwysig o'r adeiladu.
- Adnewyddu neu osod gwasanaeth - oni bai bod ei fod yn uniongyrchol gysylltiedig â mesurau addasu ar gyfer yr hinsawdd a mesurau lliniaru perthnasol.
- Unrhyw waith a ddechreuwyd cyn dyfarnu'r cyllid.
- Gwaith nad yw'n cyd-fynd â methodoleg ac arferion cadwraeth cadarn
- Prynu tiroedd neu adeiladau

- Astudiaethau dichonoldeb
- Cynlluniau cadwraeth neu wariant nad yw'n gyfalaf

## 4. Paramedrau Grant

- Ystod y Grant: £10,000 – £250,000
- Lefel ymyrraeth: hyd at 50% o gyfanswm costau cymwys y prosiect.
- Rhaid i ymgeiswyr ddangos cyllid cyfatebol wedi'i sicrhau.
- Strwythur Talu: taliadau fesul cam yn seiliedig ar gerrig milltir y cytunwyd arnynt, gyda thaliad terfynol ar ôl cwblhau'r prosiect (yn amodol ar gadw 5%) am 12 mis).
- Rhaid i bob prosiect gael ei gwblhau erbyn diwedd Chwefror 2027 fan bellaf.

*Gofynion Cynghorydd Proffesiynol ar gyfer Prosiectau a Ariennir gan Grant*

***Prosiectau lle mae cyfanswm y gost yn fwy na £100,000***

*Ar gyfer prosiectau lle mae cyfanswm y gost yn fwy na £100,000, rhaid i'r prif gynghorydd proffesiynol fod yn un o'r canlynol:*

*Pensaer*

*Syrfëwr adeiladau siartredig*

*Technolegydd pensaernïol siartredig*

*Yn ogystal, rhaid i'r cynghorydd feddu ar achrediad archaeolegol gan gorff proffesiynol cydnabyddedig.*

*Mae Cadw'n derbyn yr achrediadau canlynol ar hyn o bryd:*

*Penseiri:*

*Wedi'u rhestru yng Nghategori 'A' y Gofrestr AABC*

*Statws Pensaer Cadwraeth Arbenigol ar Gofrestr Cadwraeth yr RIBA*

*Syrfewyr Adeiladau Siartredig:*

*Wedi'u rhestru ar Gofrestr Achrediad Cadwraeth Adeiladau  yr RICS*

*Technolegwyr Pensaernïol Siartredig:*

*Statws Cadwraethwr Achrededig yng Nghyfeiriadur y CIAT o Gadwraethwyr Achrededig*

***Prosiectau lle mae cyfanswm y gost yn llai na £100,000***

*Ar gyfer prosiectau lle mae cyfanswm y gost yn llai na £100,000, caniateir penodi prif gynghorydd proffesiynol nad oes ganddo achrediad cadwraeth ffurfiol, cyn belled â bod tystiolaeth glir yn cael ei chyflwyno na fydd hyn yn peryglu integredd y prosiect na'r strwythur hanesyddol.*

**Sylwer: Ar gyfer prosiectau sydd â chyfanswm gwerth rhwng £10,000 a £24,999 rhaid i chi gael dyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf dri chyflenwr. Ar gyfer prosiectau dros y gwerth hwn, mae Cadw yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal proses dendro ffurfiol.**

## 5. Meini Prawf Cadwraeth

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno Datganiad Cadwraeth sy'n disgrifio sut y bydd y gwaith arfaethedig yn parchu ac yn cadw ffabrig hanesyddol yr adeilad, gan nodi cyflwr a defnydd presennol yr adeilad a sut y bydd y prosiect yn parchu arwyddocâd yr adeilad trwy adfer, cadw neu wella ffabrig yr adeilad gan ddarparu defnydd cynaliadwy yn y dyfodol.

## 6. Meini Prawf Cynaliadwyedd

Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno Datganiad Cynaliadwyedd sy'n amlinellu sut mae eu prosiect yn mynd i'r afael â'r meini prawf canlynol.

- Effeithlonrwydd Ynni
- Deunyddiau Cynaliadwy
- Lleihau Gwastraff
- Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth

Bydd disgwyl i'ch prosiect ddarparu buddion cynaliadwyedd sy'n gymesur â gwerth y grant y gofynnir amdano.

*Gweler canllawiau Cadw ar effeithlonrwydd ynni a newid hinsawdd i gael syniadau ar sut i sicrhau bod eich prosiect yn ystyried cynaliadwyedd:*

Sut i wella Effeithlonrwydd Ynni mewn Adeiladau Hanesyddol yng Nghymru | Cadw

Addasu I Newid Hinsawdd | Cadw

Llifogydd ac Adeiladau Hanesyddol yng Nghymru | Cadw

## 7. Proses Asesu

**Cam 1: Mynegi Diddordeb**

Gellir cyrchu'r ffurflen fynegi diddordeb yn y (dolen platfform Arolwg Clyfar) a rhaid iddi gael ei chwblhau gan berson sydd â'r awdurdod perthnasol. Os nad yr ymgeisydd yw'r perchennog, bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am ddarparu tystiolaeth bod y perchennog wedi rhoi ei ganiatâd i fwrw ymlaen. Rhaid i'r ffurflen gael ei chyflwyno i Cadw erbyn 10 Rhagfyr 2025. Bydd prosiectau'n cael eu sgorio yn erbyn y meini prawf canlynol:

- Sut mae'r prosiect yn bodloni amcanion y cynllun grant
- Manteision cadwraeth?
- Manteision cynaliadwyedd?
- Gwerth am arian a lefel yr arian cyfatebol
- A yw'n bosib ei gyflawni.

**Cam 2: Asesiad Cychwynnol**

Bydd datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hadolygu gan banel amlddisgyblaethol sy'n cynnwys swyddogion Cadw.

**Cam 3: Cais Llawn**

Byddwch yn cael eich hysbysu drwy e-bost am ganlyniad Cam 1. Bydd prosiectau sy'n llwyddiannus yng Ngham 1 yn derbyn ffurflen gais lawn i'w chwblhau erbyn 27 Chwefror 2026 fan bellaf. Bydd pob ymgeisydd Cam 1 llwyddiannus yn cael ei annog i fynychu gweithdy ar-lein a gynhelir gan Cadw, sy'n amlinellu'r broses ymgeisio lawn a'r wybodaeth sydd ei hangen gennych ar gyfer y cam nesaf.

**Cam 4: Panel Asesu**

Bydd Ceisiadau Llawn yn cael eu hadolygu gan banel amlddisgyblaethol sy'n cynnwys swyddogion Cadw.

**Cam 5: Cynnig Grant**

Bydd Ceisiadau Llawn Llwyddiannus yn derbyn naill ai cynnig "Mewn Egwyddor" neu Ddyfarniad Grant ffurfiol gydag amodau. Ym mhob achos, ni all prosiectau ddechrau nes bod y Dyfarniad Grant ffurfiol wedi'i gyhoeddi a'i dderbyn yn ffurfiol gan dderbynnydd y grant.

**Cam 6: Monitro a Gwerthuso**

Yn cynnwys ymweliadau safle, adroddiadau cynnydd, ac adolygiad terfynol.

## 8. Amddiffyn rhag Twyll

Rydych yn cydnabod y gallwn rannu unrhyw ddata rydych chi'n ei ddarparu i ni gydag asiantaethau atal twyll a thrydydd partïon at ddibenion atal a chanfod twyll. Bydd unrhyw ddata personol a gasglwn yn cael ei reoli yn unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael i'w weld yma [Hysbysiad preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU]

O dan GDPR, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu unrhyw wybodaeth bersonol a gasglwn oddi wrthych. Rydym yn casglu'r wybodaeth hon er mwyn cadw cofnod o'r ceisiadau a dderbyniwyd.

Pan fydd grant yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am uchafswm o 10 mlynedd er mwyn cydymffurfio ag amodau grant penodol.